CCWLSIR IIC 12
Senedd Cymru | Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Effaith costau cynyddol / Impact of increasing costs
Ymateb gan Clybiau Plant Cymru kids' Clubs / Response from Plant Cymru Kids' Clubs

**Pa effeithiau y mae costau byw cynyddol wedi eu cael ar eich cyfundrefn a'r sector hyd yn hyn?**

Y Gyfundrefn

- Codiadau mewn costau cyffredinol sy'n golygu nad yw'r ariannu y mae'r elusen adennill costau llawn hon yn ei dderbyn yn ymestyn mor bell.
- Gallai costau petrol uwch arwain at lai o ymweliadau wyneb yn wyneb â Chlybiau Gofal Plant Allysgol. Mae'r ymweliadau wyneb yn wyneb hyn yn ddefnyddiol yn ein cefnogi i nodi'r materion lle bydd ar glybiau angen ein cefnogaeth.
- Swyddi gwag mewn rhai achosion, a all fod yn ganlyniad angen rhai pobl am nifer uwch o oriau / cyflogau uwch na'r hyn y gall y gyfundrefn eu fforddio (mae cyflogau'n dueddol o fod yn is yn sefydliadau'r trydydd sector, ac ni allwn gynyddu cyflogau ar yr un raddfa â'r codiadau mewn costau byw).
- Mwy o anhawster o ran cynllunio cyllidebau a'r gweithlu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o ganlyniad i chwyddiant uchel a chynnydd mewn ansicrwydd o ran costau ac incwm tybiedig.

Y Sector

- Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol yn wynebu heriau tebyg wrth ateb cynnydd mewn costau craidd (codiadau yn yr isafswm cyflog cenedlaethol, codiadau rhent, codiadau mewn costau bwyd a chyfleustodau). Roedd nifer o glybiau eisoes mewn sefyllfa simsan yn sgil incwm is (llai o leoedd yn cael eu cymryd – gweler isod) ac felly mae'r codiadau hyn mewn gwariant weithiau'n ychwanegu at y tebygolrwydd o gau clybiau.
- Nifer uchel o swyddi gwag ac anhawster i recriwtio staff sydd wedi eu cymhwyso'n addas – nid oes modd i glybiau godi cyflogau i lefel presennol incymau, ac mae llawer wedi colli staff i ddiwydiannau eraill dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n anodd cadw staff oherwydd y cyflogau isel, ac mae'n anodd recriwtio staff newydd am yr un rheswm. Mewn rhai achosion bu'n rhaid lleihau oriau staff oherwydd y lleihad yn nifer y lleoedd a oedd yn cael eu cymryd, a hynny eto'n effeithio ar gyflog clir y staff a mwy o siawns y byddent yn chwilio am gyflogaeth yn rhywle arall.
- Mae Pwyllgorau a Reolir yn Wirfoddol yn ei chael hi'[n anodd recriwtio gwirfoddolwyr i'w Bwrdd / Pwyllgor, ac angen nifer o rieni/gofalwyr proffesiynol i flaenoriaethu cyflogaeth â thâl.
- Llai o leoedd yn cael eu cymryd - mae rhieni/gofalwyr eu hunain yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw (a'r cynnydd tybiedig pellach), a hyn yn arwain i lawer yn gorfod ail-werthuso eu dewisiadau gofal plant ac edrych am opsiynau rhatach. Mae'r effaith ar leoedd Clybiau Gofal Plant Allysgol yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod nifer o rieni/gofalwyr yn dal i weithio o gartref. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at leihad yn nifer y dyddiau y mae rhieni/gofalwyr yn defnyddio'r ddarpariaeth ôl-ysgol / gwyliau neu at orffen ei defnyddio'n llwyr a dewis naill ai ddewisiadau o ofal plant nad yw wedi ei reoli (ac sy'n rhatach) neu ofal yn y cartref tra gweithir o gartref.

**Pa effeithiau a ragwelwch chi y caiff costau cynyddol ar eich cyfundrefn a'ch sector? I ba raddau y bydd modd gwrthdroi'r effeithiau hyn (e.e. mannau cyfarfod yn cau, yn hytrach na ddim ond cyfyngu ar weithgareddau dros dro)?**

Y Gyfundrefn

- Angen i sicrhau ariannu ychwanegol i dalu costau craidd a chadw ein staff. Bydd hyn yn lleihau'r amser a fydd gennym i ganolbwyntio ar ein strategaeth, ein nodau a'n cenhadaeth. Hefyd, ychydig o arianwyr sy'n ariannu costau craidd.
- Angen posibl i adolygu a chwtogi ar rai elfennau o wariant yn y tymor byr.

- Dros gyfnod hirach, os bydd parhad yn y pwysau economaidd (yn enwedig os bydd hyn yn arwain i leihad yn yr incwm a dderbynnir gan gyrff eraill a fydd hefyd yn ei chael yn anodd cydbwyso yn wyneb cynnydd mewn costau byw) mae'n bosibl. Gallai hyn arwain at ddiswyddiadau a cholli staff gwerthfawr (ac felly gefnogaeth werthfawr i'r sector).

Y Sector
- Colli cronfeydd wrth gefn
- Llai o lwyddiant o ran gweithgareddau codi arian, a allai arwain at leoliadau'n cau.
- Lleihad mewn gwasanaethau (e.e. mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau'n cwtogi ar eu dyddiau / oriau / wythnosau agor neu'n cyfyngu ar nifer y plant yn eu gofal i osgoi defnyddio cymaint o ystafelloedd) a fydd yn effeithio ar ragolygon cyflogaeth y gymuned leol. Gallai hon fod yn effaith y gellid ei gwrthdroi, ond os yw'n arwain at golli staff cymwysedig, gallai hyn ddal i effeithio ar ansawdd a/neu gynaliadwyedd y ddarpariaeth wrth symud ymlaen.
- Clybiau'n cau yn barhaol, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o opsiynau na fyddent efallai'n cynnig yr un lefel o ddiogelu nac ansawdd.
- Mae'n bosib y bydd lleihad yn y nifer o ysgolion a fydd yn gallu, ac yn barod i gynnal gofal plant, yn enwedig drwy wyliau'r ysgol, oherwydd yr angen i gwtogi ar gostau cyfleustodau.

**Pa ymyriadau a hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?**
- Cefnogaeth i fusnesau bach (megis Clybiau Gofal Plant Allysgol) i helpu gyda thalu costau nwy/trydan.
- Cefnogaeth i rieni/gofalwyr i ateb costau byw cynyddol, gan felly ryddhau incwm i gael mynediad at ofal plant.
- Codiadau blynyddol yng nghyfraddau'r ariannu (Y Cynnig Gofal Plant, addysg gynnar a.y.b.) i sicrhau bod y cyfraddau'n ateb y costau i'r lleoliad.
- Ffocws parhaus/cynyddol ar gefnogaeth o ran yr heria sy'n wynebu'r sector, rhai sydd wedi gwaethygu gan gostau byw sy'n codi (e.e. recriwtio, cymwysterau staff, cystadleuaeth o gyfeiriad darpariaethau heb eu rheoleiddio).

**I ba raddau y mae'r effeithiau a ddisgrifir yn wahanol i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl o statws cymdeithasol-economaidd isel?**
- Mae costau byw cynyddol yn debygol o gael mwy o effaith ar y rhai sydd eisoes yn fregus (e.e. y sawl sydd â nodweddion a ddiogelir, megis pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; a phobl o statws cymdeithasol-economaidd isel). Felly mae'n hanfodol bod y grwpiau hyn yn cael eu hystyried o ran yr holl gymorth a'r gefnogaeth a roddir yn eu lle.
- Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol yn anos eu sefydlu a'u cynnal mewn ardaloedd o dan anfantais, a bydd llai o argaeledd gofal plant mewn ardaloedd â llai o amddifadedd.